

## OWEN, ANEURIN (1792 - 1851), hanesydd ac ysgolhaig Cymreig a golygydd cyfreithiau Hywel Dda

**Enw:** Aneurin Owen

**Dyddiad geni:** 1792

**Dyddiad marw:** 1851

**Priod:** Jane Owen (née Lloyd)

**Rhiant:** Sarah Elizabeth Pughe (née Harper)

**Rhiant:** William Owen Pughe

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** hanesydd ac ysgolhaig Cymreig a golygydd cyfreithiau Hywel Dda

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 23 Gorffennaf 1792 yn Llundain, mab [William Owen Pughe](#) a'i wraig Elizabeth. Pan oedd y mab tuag 8 oed symudodd y teulu i blwyf Nantglyn, sir Ddinbych, lle yr etifeddodd y tad stad fechan (ac eiddo yn Sir Feirionnydd hefyd) ar ôl perthynas iddo - y Parch. Rice Pughe. Er i Aneurin Owen gael ei anfon i Ysgol y Friars, Bangor, gan ei dad y derbyniodd ei addysg gan mwyaf - yr oedd ei dad am iddo dyfu i fyny yn hyddysg yn yr astudiaethau hanesyddol a llenyddol Cymreig yr oedd efe ei hunan yn cael ei gyfrif yn awdurdod arnynt erbyn hyn. Priododd, 1820, Jane Lloyd, hithau o Nantglyn, a buont yn byw yn Tanygyrt, plwyf Nantglyn. Daeth yn un o gomisiynwyr cynorthwyol y degwm yn Lloegr a Chymru, wedyn yn gomisiynwr cynorthwyol Deddf y Tlodion, ac yn ddiweddarach yn un o gomisiynwyr cau tiroedd comin. Pan fu [John Humffreys Parry](#) farw (1825) rhoddwyd i Owen y gwaith o gwpláu yr hyn a gychwynasid gan hwnnw, sef paratoi argraffiad o gyfreithiau [Hywel Dda](#) a chasglu defnyddiau ar gyfer argraffiad o ' Brut y Tywysogion.' Cyhoeddwyd y 'cyfreithiau' yn 1841 - *Ancient Laws and Institutes of Wales; Comprising the Laws ... by Howel the Good and Anomalous Laws ... with an English Translation* (London, for the Commissioners on Public Records, dwy gyfrol). Fel y dengys [Syr John E. Lloyd \(D.N.B.\)](#), yr oedd hwn yn waith nodedig, oblegid y modd gofalus yr atgynhyrchwyd y llawysgrifau gan y golygydd a hefyd oherwydd iddo, a hynny am y waith gyntaf, wahaniaethu rhwng tair fersiwn - 'dulliau' Gwynedd, Dyfed, a Gwent - cyfraith wreiddiol [Hywel](#). Nid ymddangosodd ' Brut y Tywysogion ' hyd 1860, h.y. naw mlynedd wedi marw Owen, ac ni chawsid mohono yn 1860, efallai, oni buasai am achwynion a wnaethpwyd (gweler *Archæologia Cambrensis*, III, v, 235) fod y defnyddiau yn cael eu gadael braidd yn aflêr yn y Public Record Office a'u bod at wasanaeth pobl a oedd yn eu defnyddio heb wneuthur y gydnabyddiaeth gwrtais. Pan gyhoeddwyd y ' Brut ' o'r diwedd, dan olygiaeth [John Williams](#) ' ab Ithel ', gwelwyd na chrybwyllwyd o gwbl i Owen wneuthur y rhan helaethaf o'r gwaith golygyddol. Tair blynedd cyn i Owen farw ymddangosodd, yng nghyfres y ' Monumenta Historica Britannica,' y gyfran honno o'r 'Brut' sydd yn diweddu yn 1066; golygwyd hon gan Owen. Cyhoeddodd y ' Cambrian Archaeological Association,' yn 1863, gopi a chyfieithiad a wnaethai Owen o ' Frut Gwent ' (fel y'i gelwir) ynghyd â'r rhagymadrodd a baratoisai ef gyfer y ' Monumenta.' Mewn cysylltiad â'r gweithiau a enwyd uchod, mynychodd llawer o lyfrgelloedd; gan ei fod yn fab i [William Owen Pughe](#) yr oedd iddo hefyd ddiddordeb yng nghynnwys llenyddol amryw o'r llawysgrifau a welodd. Dywedwyd amdano fod yr hyn y llwyddodd i'w wneuthur yn atgof o waith

[Edward Lhuyd](#), mewn mwy nag un ystyr. Megis y gwnaethai [Lhuyd](#), felly hefyd fe baratodd Owen gatalogiau o lawysgrifau Cymreig a welsai. Cyhoeddwyd ei ' Catalogue of Welsh Manuscripts, etc., in North Wales ' yng nghyfrol ii, rhan iv, *Transactions of the Cymmrodorion or Metropolitan Cambrian Institution* (London, 1843); cawsai'r catalog hwn y wobwr gyntaf yn eisteddfod y Cymmrodorion a gynhaliwyd yn y Trallwng, 8 Medi 1824. Rhoddwyd yr ail wobwr i [Angharad Llwyd](#) am gatalog cyffelyb; cyhoeddwyd hwnnw eisoes yn 1828 yng nghyfrol ii y *Transactions* - gweler llythyr (yn N.L.W. MS. 4857) a anfonodd [Angharad Llwyd](#), 19 Ionawr 1831, at Aneurin Owen ynghylch llawysgrif [Gutyn Owain](#). Yr oedd i Aneurin Owen ddiddordeb dwfn ym mudiadau Cymreig ei gyfnod, yn enwedig yn yr eisteddfodau. Enillodd yn eisteddfod Biwmares, 1832, y fedal arian a gynigid am draethawd ar ' Amaethyddiaeth '; cyhoeddwyd hwn yn nhrefodion yr eisteddfod ac hefyd ar wahân - *Traethawd Gwobrwyol ... ar Amaethyddiaeth* (London, 1839). Bu farw 17 Gorffennaf 1851 yn Trosyparc, gerllaw Dinbych.

## Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, i ('Introduction,' xxii - trafodaeth ar gatalogiau A. Owen o lawysgrifau Hengwrt)

NLW MSS 424, 1804, 1893, 1899, 13263

albwm William Owen Pughe, sef *Llawysgrif Mysevin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 30 yn LL.G.C

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Aneurin Owen](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [22568852](#)

Wikidata: [Q14942843](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

